



## Adroddiad Arolygu ar gyfer

**PSS UK**

**Uned 5410  
Parc Busnes Gogledd Cymru  
Cae Eithin  
Abergele  
LL22 8LJ**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

**Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad**

**21 a 22 Mehefin 2022**

**Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.**

Gallwch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: [psi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk) Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

## Ynglŷn â PSS UK

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth lleoli oedolion
Darparwr cofrestredig	PSS UK
Lleoedd cofrestredig	0
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy iaith
Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru	Dyma'r arolygiad cyntaf o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg?	Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog

### Crynodeb

Mae'r bobl yn hapus gyda'r gofal a'r cymorth y maent yn eu derbyn gan eu gofalwyr. Maent yn wybodus, yn barchus ac yn ofalgar ac yn darparu gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn cael eu hannog i fod mor annibynnol â phosibl a'u cefnogi i ddilyn yr hyn sy'n bwysig iddynt.

Mae staff PSS UK yn cynnal asesiadau cadarn o ddarpar ofalwyr, ac mae'r broses baru yn drylwyr i sicrhau bod unigolion yn cael eu paru â'r lleoliad mwyaf addas. Mae systemau ar waith i fesur perfformiad parhaus y gwasanaeth ac i sicrhau bod lleoliadau'n parhau i ddiwallu anghenion yr unigolyn.

Mae'r bobl a'u gofalwyr yn cael eu cefnogi gan wasanaeth a reolir yn dda. Cânt gefnogaeth helaeth gan staff PSS UK ac maent yn eu hystyried yn gefnogol iawn ac yn hawdd mynd atynt. Mae staff PSS UK yn frwdfrydig ac eisiau cyflawni'r canlyniadau gorau i'r bobl a'u gofalwyr, gan gadw'r bobl yn ganolog i'r gwasanaeth. Maent yn ymroddedig i ddarparu gofal da sy'n hyrwyddo diwylliant cynhwysol. Mae systemau a phrosesau ar waith gan y darparwr i fesur perfformiad y gwasanaeth yn barhaus.

## Llesiant

Mae gan y bobl reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Mae'r darparwr cofrestredig yn cadw'r bobl wrth graidd y gwasanaeth. Mae'r gofal a'r cymorth a ddarperir yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn gyson â nodau a dymuniadau personol y bobl. Mae'r bobl yn cael eu cefnogi i ddilyn eu hobiau eu hunain ac yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn tasgau a gweithgareddau bywyd bob dydd. Mae'r gofaluwr yn cefnogi'r bobl i ddiwallu eu hanghenion crefyddol, ysbrydol a diwylliannol unigol. Cesglir barn y bobl fel rhan o'r gwaith o fonitro a datblygu'r gwasanaeth.

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi gyda'u llesiant corfforol, meddyliol ac emosiynol. Trefnir lleoliadau gyda chyfranogiad llawn yr unigolyn a'r gofaluwr/gofaluwr a neilltuwyd iddo. Caiff cynlluniau personol eu hadolygu'n rheolaidd ac maent yn nodi dymuniadau, teimladau, anghenion a nodau'r bobl yn glir. Mae cyfathrebu clir o fewn y gwasanaeth, ac mae newidiadau yn cael eu cyfleu'n gyfrinachol ac yn effeithiol. Mae'r bobl yn cael cymorth i gael mynediad at wasanaethau gofal iechyd mewn modd amserol ac mae atgyfeiriadau a chynngor priodol yn cael eu ceisio. Mae'r gofaluwr yn cefnogi unigolion i gadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau ac maent yn cael yr hyfforddiant priodol i'w galluogi i ddiwallu anghenion y bobl y maent yn eu cefnogi. Maent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y tîm datblygu ac yn ystyried staff PSS UK yn gymwynasgar, hawdd mynd atynt, a hygyrch.

Caiff y bobl eu diogelu a'u hamddiffyn rhag niwed. Mae gan y darparwr cofrestredig broses fanwl ar gyfer recriwtio gofaluwr, gan sicrhau bod y gofaluwr yn addas i weithio gyda phobl agored i niwed ac yn meddu ar y sgiliau a rhinweddau priodol i gyflawni'r rôl. Mae gofaluwr a staff PSS UK yn cael hyfforddiant ar ddiogelu oedolion rhag y risg o gamdriniaeth ac mae polisiau a gweithdrefnau ar waith. Cwblheir gwiriadau diogelwch amgylcheddol cyn i unrhyw leoliad ddechrau a chânt eu monitro'n rheolaidd.

## Gofal a Chymorth

Mae'r broses baru yn drylwyr ac yn gadarn iawn. Rhoddir ystyriaeth ofalus i baru'r lleoliadau mwyaf priodol ar gyfer unigolion. Mae'r bobl yn cael eu cynnwys drwy gydol y broses asesu er mwyn nodi lleoliad addas. Mae cyflwyniadau i ddarpar ofalwyr yn cael eu harwain gan yr unigolyn ac yn eu pwysau eu hunain. Cwblheir adolygiadau rheolaidd o'r lleoliad, i wirio llesiant yr unigolyn, ei nodau unigol, ac addasrwydd parhaus y lleoliad.

Mae'r bobl yn derbyn gofal a chymorth yn unol â'u nodau a hoffterau unigol. Gwelsom fod y dewisiadau hyn yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu gan ofalwyr a staff PSS UK. Mae'r bobl yn fodlon ac yn gyfforddus yn eu cartref a gwnaethant ddweud eu bod yn hapus gyda'r ffordd y maent yn cael eu cefnogi a'u gofalu amdanynt. Gwelsom y gofal a'r cymorth yn cael eu darparu mewn modd cadarnhaol, sensitif a pharchus. Ysgrifennir cynlluniau personol mewn fformat sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a chânt eu hadolygu'n rheolaidd. Mae asesiadau risg priodol ar waith ac maent yn manylu ar sut i liniaru'r risgiau hynny. Adolygir asesiadau risg yn rheolaidd gan amlaf.

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi i wneud yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw. Cânt eu cefnogi i ddilyn eu diddordebau a chael mynediad i'w cymuned leol. Mae cyfleoedd gwirfoddoli yn cael eu canfod, a chefnogir pobl i gymryd rhan mewn grwpiau lleol. Mae adborth a dderbyniwyd yn dangos bod y bobl yn cael eu hannog i fod mor annibynnol â phosibl a bod cymryd risgiau cadarnhaol yn cael ei hybu.

Mae'r bobl yn profi cynhesrwydd ac ymdeimlad o berthyn – dywedodd y bobl wrthym fod y gofalwyr ac aelodau eraill y cartref “*fel teulu*”. Roedd yn amlwg yn ystod ein trafodaethau â'r gofalwyr bod y bobl sy'n byw gyda nhw yn cael eu hystyried yn rhan o'u teulu.

Mae gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar gael i'r bobl. Mae gan bob unigolyn gynllun personol sy'n rhoi gwybodaeth fanwl am unrhyw anghenion iechyd penodol. Mae pasbortau ysbyty yn cael eu hymgorffori yn y cynlluniau ar hyn o bryd sy'n cynnwys gwybodaeth bwysig pe bai rhywun yn cael ei dderbyn i'r ysbyty. Mae'r bobl yn cael cymorth i fynychu apwyntiadau yn y gymuned. Cedwir yr holl ddogfennau a gohebiaeth er mwyn darparu cofnod iechyd ar gyfer pob unigolyn.

Mae systemau a phrosesau ar waith i amddiffyn y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae'r gofalwyr yn effro ac yn ymateb yn briodol i hwyliau ac ymddygiad pobl mewn modd cadarnhaol. Mae'r bobl yn ymwneud â rheoli eu risgiau eu hunain pryd bynnag y bo modd. Cadarnhaodd ein trafodaethau â'r gofalwyr fod y bobl yn cael eu cadw'n ddiogel gan fod gan y gofalwyr ddealltwriaeth dda o risgiau unigol, a sut i leihau'r risgiau hynny. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel ac y gallant fynd at eu gofalwyr. Mae polisïau a systemau priodol ar waith i amddiffyn pobl rhag camdriniaeth. Mae'r gofalwyr a staff PSS

UK yn cael hyfforddiant diogelu ac yn gwybod sut i adnabod camdriniaeth a sut i amddiffyn y bobl. Maent yn deall sut i godi pryderon, o fewn eu sefydliad a thu hwnt, i sicrhau bod y bobl yn ddiogel a bod eu hawliau'n cael eu hamddiffyn.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth mewn amgylchedd diogel ac addas. Mae'r gwasanaeth yn cynnal y gwiriadau priodol cyn i gymorth ddechrau fel rhan o'r broses recriwtio gofalwyr. Wedi hynny, cynhelir gwiriadau diogelwch blynyddol i sicrhau bod y lleoliad yn parhau i ddiwallu anghenion yr unigolyn mewn amgylchedd diogel a chartrefol. Mae gan y gwasanaeth fesurau ar waith i gofnodi ac adrodd ar faterion iechyd a diogelwch, a gwelsom dystiolaeth bod y gwasanaeth yn cymryd camau priodol i fynd i'r afael â'r rhain. Fe wnaethom ymweld â lleoliadau a gweld bod yr adeiladau lle y'u cynhelir yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn hapus gyda'u hystafelloedd.

Cedwir cofnodion yn ddiogel ac yn unol ag anghenion deddfwriaethol. Mae gan y gwasanaeth le addas i ddarparu preifatrwydd ar gyfer goruchwyllo staff.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r darparwr cofrestredig yn glir ynghylch yr hyn y mae'r gwasanaeth yn bwriadu ei gyflawni. Mae gan y gwasanaeth ddatganiad o ddiben cyfredol sy'n adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir. Mae'r ddogfen hon yn nodi ethos, nodau a gwerthoedd y gwasanaeth, a sut y bwriedir darparu'r gwasanaeth. Mae staff PSS UK yn deall gweledigaeth a gwerthoedd y darparwr cofrestredig a sut i'w cymhwyso at eu harferion gwaith. Mae llawlyfr cynhwysfawr ar gael i'r gofalmwr sy'n rhoi gwybodaeth bwysig am eu rôl a sut y gallant gael cymorth. Mae gan y gwasanaeth bolisiâu a gweithdrefnau cyfredol sydd, at ei gilydd, yn unol â deddfwriaeth a chanllawiau cyfredol. Mae gan y gwasanaeth bolisi cwynion hygyrch a gwelsom fod cwynion yn cael eu rheoli'n effeithiol, a bod camau a gymerwyd yn cael eu cofnodi.

Mae proses recriwtio a pharu gofalmwr a staff PSS UK yn foddhaol yn y gwasanaeth. Gwelsom fod gan ffeiliau staff y gwiriadau diogelwch angenrheidiol ar waith, gan sicrhau addasrwydd y staff i weithio gydag oedolion agored i niwed.

Mae'r gwasanaeth yn darparu cefnogaeth barhaus i'r bobl a'u gofalmwr. Mae'r gofalmwr yn cael cymorth gan weithiwr datblygu penodedig, y gallant gysylltu ag ef os oes ganddynt unrhyw broblemau. Gwelsom ryngweithio cynnes a gofalgwr rhwng pawb dan sylw. Dywedodd y gofalmwr wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n fawr gan y gweithwyr datblygu. Ymhlith y sylwadau mae "*D'oes ond rhaid i mi ffonio X ac mae X yma*", "*Mae'r gefnogaeth yno bob amser*", "*Mae PSS yn gefnogol iawn, iawn*" ac "*Alla i ddim canfod unrhyw fai*". Mae'r bobl a'u gofalmwr yn cael eu cynnwys yn yr adolygiadau, a gynhelir yn rheolaidd gyda'r gweithiwr datblygu. Mae'r gofalmwr yn cael cyfarfodydd rheolaidd i drafod materion ac er mwyn i'r gwasanaeth fedru darparu unrhyw ddiweddariadau a chyfleoedd hyfforddi.

Mae'r bobl yn derbyn gwasanaeth gan ddarparwr cofrestredig sy'n sicrhau bod y staff yn cael eu cefnogi, eu goruchwyllo a'u hyfforddi'n dda. Cynhelir cyfarfodydd staff gyda phwrpas clir ac mae cofnodion manwl yn cael eu cadw. Dywedodd pob aelod o staff PSS UK y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi'n fawr gan y sefydliad. Mae'r staff yn ymddangos yn frwdfrydig iawn ynghylch darparu'r gwasanaeth gorau posibl i'r unigolion. Mae'r staff yn wybodus am eu rolau a'r bobl y maent yn gweithio gyda nhw. Mae sylwadau gan y staff yn cynnwys "*Mae'n wych yma*", "*Rwy'n caru fy ngwaith*" ac "*Yr agwedd bwysicaf yw gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl*".

Mae trefniadau ar waith ar gyfer goruchwyliaeth o'r gwasanaeth drwy brosesau sicrhau ansawdd a threfniadau llywodraethu parhaus. Mae gan yr unigolyn cyfrifol oruchwyliaeth dda o'r gwasanaeth, a gwelsom dystiolaeth bod yr ymweliadau rheoleiddio wedi'u cwblhau. Dylai'r unigolyn cyfrifol sicrhau ei fod yn dangos tystiolaeth o adolygu detholiad o gofnodion fel rhan o'i ymweliadau chwarterol. Mae adolygiad ansawdd gofal ar gael er mwyn asesu,



monitro a gwella ansawdd a diogelwch y gwasanaeth. Mae'r gwasanaeth yn rhagweithiol wrth gasglu adborth gan y bobl, y gofalwyr a'r gweithwyr proffesiynol. Gwelsom adborth cadarnhaol o ffynonellau lluosog, gan gynnwys o ddigwyddiadau a gynhaliwyd ar gyfer y gofalwyr a'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn mwynhau'r digwyddiadau ac yr hoffent fynychu mwy ohonynt. Mae digwyddiadau cymdeithasol yn galluogi'r gofalwyr a'r bobl y maent yn eu cefnogi i gwrdd ag eraill ac adeiladu rhwydwaith cefnogol. Mae gan y gwasanaeth ddull rhagweithiol ar gyfer sicrhau ansawdd a gwella'r gwasanaeth er mwyn cyflawni'r canlyniadau gorau posibl i'r bobl.

### Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
<b>Newydd</b>	Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn.
<b>Adolygwyd</b>	Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf.
<b>Ni chyflawnwyd</b>	Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni.
<b>Cyflawnwyd</b>	Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni.

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer y bobl, a/neu risg i lesiant y bobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

### Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Amherthnasol	Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Amherthnasol

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

### Maes/Meysydd i'w Gwella

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Amherthnasol	Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn	Amherthnasol

	yn yr arolygiad hwn	
--	---------------------	--

## **Dyddiad cyhoeddi**

5 Medi 2022